CYMRU / WALES
PROMPT
PRactical Obstetric Multi-Professional Training
Hyfforddiant Aml-broffesiynol Ymarferol mewn Obstetreg



Taflen Newyddion PROMPT

Rhifyn 1 Rhagfyr 2018

Lansiad Swyddogol PROMPT Cymru 2018



Cynhaliwyd lansiad swyddogol PROMPT Cymru ar 23 Hydref 2018 yng Ngwesty'r Clayton, Caerdydd.

Bu'n llwyddiant ysgubol gyda chynrychiolaeth o bob 7 Bwrdd Iechyd.

Y gwesteion arbennig oedd Neil Frow, Rheolwr Gyfarwyddwr Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru; Dr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol Cymru a'r Athro Jean White CBE, Prif Swyddog Nyrsio Cymru.

Diddanodd tîm PROMPT Cymru gynulleidfaoedd gan drin a thrafod argyfyngau obstetrig cyffredin drwy ddangos dril sepsis a dril gwaedlif ôl-enedigol. Cafodd y ddau senario eu hwyluso gan dîm PROMPT Cymru, gyda chefnogaeth Sefydliad Mamolaeth PROMPT a thîm OBS Cymru.



Roedd y senarios yn adlewyrchiad o sut y gellir defnyddio PROMPT Cymru mewn hyfforddiant byrddau iechyd lleol.

Os hoffech gynnal lansiad lleol i hyrwyddo PROMPT Cymru yn eich sefydliad, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Hyfforddiant PROMPT Lleol Cymru

Isod mae dyddiadau ar gyfer hyfforddiant **PROMPT Cymru** lleol ymhob sefydliad:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – **9 Ionawr 19**

BIP Betsi Cadwaladr Wrecsam – **11 Ionawr 19**

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys – **14 Ionawr 19**

BIP Abertawe Bro Morgannwg Singleton – **17 Ionawr 19**

BIP Hywel Dda – **21 Ionawr 19**

BIP Betsi Cadwaladr Glan Clwyd – **21 Ionawr 19**

BIP Cwm Taf – **23 Ionawr 19**

BIP Betsi Cadwaladr Bangor – **29 Ionawr 19**

BIP Abertawe Bro Morgannwg Pen-y-Bont ar Ogwr – **30 Ionawr 19**

Am ragor o wybodaeth am eich hyfforddiant PROMPT lleol, cysylltwch â'ch arweinydd PROMPT lleol neu Dîm Cenedlaethol PROMPT Cymru

Cysylltu â Thîm Cenedlaethol PROMPT Cymru

☎ 01745 366760
✉ Prompt.Wales@wales.nhs.uk
@PromptWales

Mae tîm cenedlaethol PROMPT Cymru yn bwriadu cyhoeddi taflen newyddion chwarterol a byddent yn gwerthfawrogi cyfraniadau gan wasanaethau mamolaeth yng Nghymru.

Cysylltwch â prompt.wales@wales.nhs.uk os oes gennych unrhyw wybodaeth yr hoffech chi ei chynnwys yn y rhifyn nesaf.

GIG CYMRU NHS WALES | Rhwydwaith Mamolaeth Cymru | Wales Maternity Network

Mae PROMPT Cymru yn rhaglen sy'n cael ei hariannu gan Gronfa Risg Cymru ac sy'n cael ei darparu mewn cydweithrediad â Rhwydwaith Mamolaeth Cymru.

GIG CYMRU NHS WALES | Rhwydwaith Mamolaeth Cymru | Wales Maternity Network



Diwrnodau Datblygu Cyfadrannau Lleol

Mae diwrnodau datblygu cyfadrannau lleol yn prysur fynd rhagddynt. Mae tîm PROMPT Cymru wedi cefnogi a hwyluso diwrnodau datblygu cyfadrannau lleol yn BIP Aneurin Bevan, BIP Abertawe Bro Morgannwg, BIP Caerdydd a'r Fro a BIP Cwm Taf.

Braf iawn oedd gweld y brwdfrydedd a'r ymrwymiad sydd gan bob Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu PROMPT Cymru yn eu hunedau lleol yn y dyfodol.



Mae BIP Abertawe Bro Morgannwg wedi cynyddu nifer yr aelodau yn eu cyfadran i **53**
Mae BIP Aneurin Bevan wedi cynyddu nifer yr aelodau yn eu cyfadran i **34**



Mae BIP Hywel Dda wedi cynyddu nifer yr aelodau yn eu cyfadran i **32**
Mae BIP Caerdydd a'r Fro wedi cynyddu nifer yr aelodau yn eu cyfadran i **38**

Mae gan Gronfa Ddata Cyfadrannau Cenedlaethol PROMPT Cymru nifer anhygoel o 224 o hyfforddwyr PROMPT cofrestredig erbyn hyn.
Llongyfarchiadau i bob tîm

Mae dyddiadau wedi cael eu pennu ar gyfer diwrnodau datblygu cyfadrannau lleol yn BIP Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn y flwyddyn newydd!

Canlyniadau Clinigol PROMPT Cymru

Er mwyn gwerthuso pa mor effeithiol yw PROMPT Cymru, bydd y tîm yn archwilio amryw o ganlyniadau clinigol – cyn ac ar ôl gweithredu'r rhaglen – gan gynnwys y canlynol:

1. Apgar 5 munud <7
2. Enseffalopathi hypocsig-isgemig
3. Derbyn baban sydd wedi cyrraedd ei lawn dymor i'r uned gofal dwys i'r newydd-anedig yn annisgwyl
4. Dystocia'r ysgwydd
5. Anaf plecsws breichiol
6. Gwaedlif ôl-enedigol
7. Derbyn mamau i ofal lefel 2/3

PROPIAU PROMPT: Rhannwch eich awgrymiadau!
"Prop da ar gyfer efelychu abdomen beichiog yw'r bol 'Siôn Corn' chwyddadwy hwn, a gallwch ei brynu'n rhad ar-lein a'i ddatchwyddo er mwyn ei ffitio yn eich blwch offer!"

Byddwn yn rhannu eich awgrymiadau o ran cyfarpar yn nhaflenni newyddion PROMPT Cymru – e-bostiwch ni!



Holiaduron am Agweddau ar Ddiogelwch

Llongyfarchiadau i Rhidian Jones (BIP Abertawe Bro Morgannwg) a Daisy Hodson (Hywel Dda) am ennill pâr o docynnau yr un i weld Calendar Girls yng Nghaerdydd am gwblhau eu holiaduron am agweddau ar ddiogelwch!



Mae rownd gyntaf yr holiaduron am agweddau ar ddiogelwch wedi dod i ben, a chafodd 354 o holiaduron eu dychwelyd gan fydwragedd, staff cymorth, obstetryddion ac anesthetyddion ledled y Byrddau Iechyd.

Mae'r holiadur hwn yn ddull effeithiol o adolygu safonau diogelwch mewn gwasanaethau mamolaeth sydd wedi ennill ei blwyf erbyn hyn.

Ar ôl i'r mwyafrif o'r staff fynychu hyfforddiant PROMPT Cymru, byddwn yn cwblhau rownd arall o holiaduron er mwyn eu cymharu â'r holiaduron blaenorol.